


# Cydbwyllgor Llywodraethu - Crynodeb o Berfformiad Ch1 2021 PPC


## Sylwadau ar y Farchnad Fyd-eang

Ym mis Ionawr, cafodd Joe Biden ei urddo fel 46ain Arlywydd yr UDA, gyda'i Blaid Ddemocrataidd yn sicrhau rheolaeth o'r Gyngres. Lansiodd gynllun sbarduno cyllidol \$1.9 triliwn yn ogystal. Wrth i'r chwarter symud yn ei flaen, parhaodd yr ymgyrch frwd i ddarparu brechiadau Covid-19 mewn gwahanol rannau o'r byd, gan godi gobeithion am ddiwedd i'r pandemig. Fe wnaeth y gobaith hwn roi hwb i ragolygon twf economaidd byd-eang ac, yn ei dro, cynyddodd ddisgwyliadau chwyddiant hefyd. Bydd chwyddiant uwch yn arwain at gyfraddau llog uwch fydd yn codi rhai o bryderon buddsoddwyr. Er hynny, gyda rhagolygon twf uwch a chefnogaeth ariannol a chyllidol sylweddol, cododd marchnadoedd ecwiti dros y cyfnod.

## Perfformiad dosbarth ased - y Chwarter hyd fis Mawrth 2021



## Perfformiad dosbarth ased - Y flwyddyn hyd fis Mawrth 2021



Meincnodau : Global equity hedged (MSCI World ACWI), UK equity (FTSE All Share), US equity hedged (Russell 1000 Net GBPH), Europe ex UK equity (MSCI Europe ex UK Equity Net GBPH), Japan equity (TOPIX Net GBPH), Emerging equity (MSCI Emerging Markets Net), Global HY bonds (BofAML Global High Yield 2% Constrained Index), EMD LC (JP Morgan GBI-EM Global Diversified Index), Global credit hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Credit Index), Global aggregate hedged (Bloomberg Barclays Global Aggregate Bond Index GBPH), UK Government Bonds (ICEBofAML UK Gilts All Stocks (GB), Property hedged (FTSEEPRA Nareit Dev Re GBP)

## Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang:

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Gros	5.85	42.63	15.88
Net	5.78	42.21	15.50
MSCI AC World Index Net	3.61	38.94	13.59
Gwarged enillion (gros)	2.25	3.69	2.29

Dyddiad Cychwyn: COB 14 Chwefror 2019

### Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Fe wnaeth y Gronfa gofnodi dychweliadau absoliwt positif a gorffen uwchben y meincnod gyda chapiau bach yn perfformio'n llawer gwell y chwarter hwn. Perfformiodd mesurau gwerth yn gryf wrth i fuddsoddwyr ddewis stociau Ynni, Diwydiannol ac Ariannol rhatach. Fe wnaeth stociau dididend uwch hefyd fwynhau cyfnod cryfach. Rhoddodd hyn hwb i enillion Sanders (gwerth) a dull mwy aml-ffactor Jacobs Levy. Ar ochr arall y sbectrwm, fe wnaeth twf a momentwm danberfformio, gan bwysu ar (dwf) Morgan Stanley. Fe wnaeth ansawdd a dulliau amddiffynnol hefyd fynd ar ei hôl hi. Fel y cyfryw, fe wnaeth strategaeth anweddolrwydd isel Numeric ei chael yn anodd dod o hyd i dyniant yn amgylchedd cyffredinol y farchnad.

## Cronfa Dwf Byd-eang:

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Gros	5.34	49.51	17.61
Net	5.24	48.95	17.14
MSCI AC World Index Net	3.61	38.94	14.18
Gwarged enillion (gros)	1.74	10.57	3.42

Dyddiad Cychwyn: 6 Chwefror 2019

### Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Fe wnaeth y Gronfa berfformio'n well na'i meincnod yn y chwarter hyd at fis Mawrth 2021. Fe wnaeth stociau gwerth barhau i berfformio'n well na'u cyfoedion twf wrth i fwy o gwmnïau economaidd sensitif fanteisio ar y buddion o farchnadoedd yn gobeithio am ddiwedd i gyfnodau clo a gwell rhaglenni brechu. Fe wnaeth hyn alluogi i Pzena berfformio'n sylweddol uwch yn y chwarter. Fe wnaeth Baillie Gifford a Veritas danberfformio yn y cyfnod fel sgil-ffaith newid momentwm yn y farchnad a chymryd elw.

Er bod y pandemig wedi effeithio ar economïau byd-eang gyda thwf GDP yn negyddol yn y mwyafrif o wledydd a chyda nifer o wledydd yn gweld eu dirywiad mwyaf erioed mewn GDP, mae marchnadoedd asedau wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn. Dyma ganlyniad uniongyrchol y camau a gymerwyd gan wneuthurwyr polisi i ostwng cyfraddau llog yn gyffredinol a darparu symiau eithafol o hylifedd: yn y byd economaidd, cyfraddau llog sy'n rhoi grym i bopeth.

## Sylwadau ar Farchnad y DU

Fe wnaeth y FTSE All-Share wella o ddechrau negyddol a mwynhau chwarter cadarnhaol. Fe wnaeth cefnogaeth gyson gan y llywodraeth a banciau canolog, yn ogystal â'r ymgyrch barhaus i ddarparu brechiadau Covid-19, roi hwb i hyder buddsoddwyr. Rhoddodd y "cynllun" i adael y cyfnod clo cenedlaethol hwb i sentiment, gyda disgwyl i fywyd ddychwelyd yn ôl i'r normal cyn diwedd mis Mehefin. Roedd hyn yn gyferbyniad i ardaloedd eraill ar draws y byd, gan gynnwys Ewrop. Fe wnaeth gwell rhagolygon twf byd-eang arwain at gynnydd mewn disgwyliadau chwyddiant, a achosodd i gromliniau bondiau'r llywodraeth syrthio a chynyddodd buddsoddion yn uchel yn sydyn. Cafodd hyn effaith ar feysydd gwerth uwch y farchnad ecwiti.

## Cronfa Cyfleoedd Ecwiti'r DU:

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
<b>Gros</b>	6.25	41.57	4.67
<b>Net</b>	6.14	41.01	4.22
<b>FTSE All Share</b>	5.19	26.71	0.22
<b>Gwarged enillion (gros)</b>	1.06	14.87	4.45

Dyddiad Cychwyn: COB 11 Hydref 2019

### Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Fe wnaeth y Gronfa berfformio'n well na'r meincnod. Fe wnaeth stociau oedd wedi'u clymu agosaf i'r economi, sef ecwiti cyfalafiad gwerth a bychan, berfformio'n well i raddau helaeth na'u cyfoedion cap twf a mawr, yn y drefn honno. Roedd sefyllfa 'pro-cyclical' y Gronfa a'i gogwydd tuag at stociau llai, domestig yn gweddu i'r amgylchedd marchnad hwn. Roedd strategaeth gwerth Ninety One a dull marchnad Liontrust yn gadarnhaol. I'r gwrthwyneb, fe wnaeth strategaeth dwf Baillie Gifford arwain at well perfformiad ers ei dechrau mewn cyfnod lle gwnaeth stociau oedd yn seiliedig ar y we fynd yn amhoblogaidd.

## Sylwadau ar y Farchnad Incwm Sefydlog

Fe wnaeth y Federal Reserve (Fed) ddarparu diweddariad cymodlon ar eu polisi ariannol drwy ragfynegi'r cyfraddau llog isaf erioed tan o leiaf 2024 ac y byddai'r Fed yn "amyneddgar" wrth newid ei safiad ariannol. Cynyddodd enillion meincnod 10 mlynedd y Trysorlys i 1.74%, gan orffen y chwarter ar ei lefel uchaf ers mis Ionawr 2020. Ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau gan Fanc Lloegr (BoE) i'w bolisi ariannol. Er bod y banc wedi dweud bod y rhagolwg ar gyfer economi'r DU "yn parhau'n anarferol o ansicr" - rhagwelodd y byddai GDP y DU yn adfer tuag at lefelau cyn Covid-19 yn 2021 ac y byddai chwyddiant yn codi tua tharged 2.0% y BoE yn y gwanwyn. Ni wnaeth Banc Canolog Ewrop newid ei gyfradd llog ond fe wnaeth ddwysau ei raglen prynu bondiau brys wythnosol, er mwyn cadw rheolaeth ar effeithiau andwyol gwerthu marchnad dyledion Ewrop yn ddiweddar. Tynhaodd 'spreads' credyd gradd buddsoddi (IG) byd-eang dros y chwarter, a bu ymrwymiad gweinidogion ariannol y G7 yn gymorth i gynnal cefnogaeth ariannol. Fe wnaeth gwella rhagolygon twf economaidd, mwy o brisiau olew sefydlog yn ogystal â hela am enillion, ogwyddo galw buddsoddwyr tuag at fusnesau ar y raddfa isaf, gan dynhau 'spreads' enillion uwch corfforaethol yn yr UE a'r UDA. Cryfhaodd doler yr UDA dros y chwarter gan roi pwysau ar fasged o arian cyfredol. Doler Taiwan, y ddoler Ganadaidd a'r bunt Brydeinig oedd yr arian cyfredol a berfformiodd orau yn erbyn y papurau gwyrdd.

## Cronfa Bondiau Llywodraeth Byd-Eang:

	Tri Mis	Ers Cychwyn
<b>Gros</b>	-2.64	-0.79
<b>Net</b>	-2.69	-0.91
<b>FTSE World Gvt Bond Index (GBP Hedged)</b>	-3.10	-2.62
<b>Gwarged enillion (gros)</b>	0.46	1.83

Dyddiad Cychwyn: COB 19 Awst 2020

### Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Fe wnaeth y Gronfa berfformio'n well na'r meincnod yn y cyfnod hwn. Roedd sefyllfa cyfraddau'r Gronfa yn gadarnhaol ar sail gymharol. Roedd amlygiad i danbwysau ar fondiau sofran yr UDA, y DU ac Ewropeaidd yn gweddu i'r amgylchedd marchnad hwn. Fe wnaeth tanbwysau ar ffranc y Swistir, yr ewro a doler yr UDA hefyd gael eu gwobrwyo. Fodd bynnag, fe wnaeth sefyllfa dros bwysau ar yr ien Siapaneaidd roi pwysau ar berfformiad gwell ychwanegol.

## Cronfa Credyd Byd-Eang:

	Tri Mis	Ers Cychwyn
<b>Gros</b>	-2.70	0.01
<b>Net</b>	-2.73	-0.09
<b>Bloomberg Barclays Global Agg Credit Index (GBP Hedged)</b>	-3.12	-1.21
<b>Gwarged enillion (gros)</b>	0.43	1.22

Dyddiad Cychwyn: COB 20 Awst 2020

### Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Fe wnaeth y Gronfa berfformio'n well na'r meincnod yn y cyfnod hwn. Gwobrwywyd safle credyd corfforaethol y Gronfa yn yr amgylchedd hwn, yn enwedig y sefyllfa dros bwysau ar fondiau HY yr UDA. O fewn cyfraddau, roedd tanbwysau ar barhad yr UDA a Chanada yn gyfraniadau allweddol. Fe wnaeth amlygiad i danbwysau ar enwau Marchnad Datblygol, yn ogystal â bondiau bwrdeistrefol yr UDA dynnu oddi wrth berfformiad gwell ychwanegol.

### Cronfa Credyd Aml-ased:

	Tri Mis	Ers Cychwyn
<b>Gros</b>	0.66	6.18
<b>Net</b>	0.55	5.91
<b>3 Month GBP Sonia + 4%</b>	1.00	2.58

Targed Perfformiad yw 3 Month GBP Sonia + 4%, nid ydym wedi dangos y gwarged enillion gan mai targed yw hwn.

**Dyddiad Cychwyn: COB 11 Awst 2020**

#### Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Roedd y Gronfa o dan y targed hirdymor dros y chwarter. Gwobrwywyd safle credyd corfforaethol yn yr amgylchedd hwn, yn enwedig y sefyllfa dros bwysau ar fondiau HY yr UDA. Fe wnaeth amlygiad i ddiogelwch yr UDA hefyd ychwanegu gwerth perthynol. Fodd bynnag, fe wnaeth sefyllfa dros bwysau ar barhad yr UDA roi pwysau ar enillion.

### Cronfa Strategaeth Bond Enillion Absoliwt:

	Tri Mis	Ers Cychwyn
<b>Gros</b>	1.36	2.28
<b>Net</b>	1.25	2.04
<b>3 Month GBP Sonia + 4%</b>	0.51	1.02

Targed Perfformiad yw 3 Month GBP Sonia + 2%, nid ydym wedi dangos y gwarged enillion gan mai targed yw hwn.

**Dyddiad Cychwyn: COB 30 Medi 2020**

#### Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Fe wnaeth y Gronfa berfformio'n well y chwarter hwn. Fe wnaeth cromliniau bondiau'r llywodraeth syrthio a chynyddodd buddsoddion yn uchel yn sydyn. Er hynny, parhaodd banciau canolog byd-eang i ddarogan y cyfraddau llog isaf erioed. Tynhaodd 'spreads' credyd corfforaethol o fewn yr amgylchedd hwn. Roedd dyledion marchnadoedd datblygol yn amhoblogaidd. Yn debyg i'r chwarter blaenorol, roedd amlygiad y cronfeydd i strategaethau blaendalu yn yrrwr allweddol o'i enillion cadarnhaol. Roedd amlygiad cadarnhaol y cronfeydd yn y gofod diogelwch Ewropeaidd a'u safle ar y gromlin enillion hefyd yn gyfranwyr cadarnhaol at berfformiad cryf absoliwt y cronfeydd.

## Cronfa Credyd y Deyrnas Gyfunol:

	Tri Mis	Ers Cychwyn
Gros	-4.31	-0.56
Net	-4.34	-0.63
ICE Bank of America Merrill Lynch Euro-Sterling Index plus 0.65%	-3.96	-0.41
Gwarged enillion (Gros)	-0.36	-0.15

Dyddiad Cychwyn: COB 19 Awst 2020

### Sylwadau ar y Gronfa Gyffredinol

Fe wnaeth y portffolio gofnodi dychweliadau negyddol a pherfformio'n gymharol â'r mynegai dros y chwarter. Fe wnaeth optimistaeth gynyddol ynghylch adferiad economaidd a'r cynnydd mewn brechiadau COVID-19 roi hwb i'r sentiment risg. Yn erbyn y cefndir hwn, cafodd y portffolio fudd o feta credyd dros bwysau yn ogystal â dewis credyd ffafriol. Dewis ffafriol mewn EDF oedd y prif gyfrannwr o ran y cyflwynwyr. Roedd safbwynt dros bwysau mewn uwch-gwmni diwydiannol GE hefyd yn gyfrannwr arwyddocaol at yr enillion. Roedd y newyddion cadarnhaol ynghylch y rhaglen ddsbarthu brechiadau hefyd yn gefnogol yn sgil ei oblygiadau i'r sector awyrofod a gofal iechyd.

Amlygiad risg cyfradd llog y portffolio oedd prif yrrwr dychweliadau absoliwt negyddol wrth i enillion bondiau llywodraeth godi dros y cyfnod, o ystyried y momentwm mewn masnach gysylltiol. Fe wnaeth sefyllfa risg cyfraddau llog hefyd dynnu oddi wrth berfformiad cymharol gyda sefyllfa dros bwysau mewn parhad sterling yn pwysu ar dychweliadau.